| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Perfformiad** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **2 Hydref 2014** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | **Aelod Arweiniol Moderneiddio a Pherfformiad / Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr y Rhaglen Gorfforaethol:** |
| **Teitl:** | **Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2013/14** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae gofyn i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei berfformiad erbyn 31 Hydref pob blwyddyn. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag Adolygiad Perfformiad Blynyddol drafft y Cyngor ar gyfer 2013/14.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Lluniwyd yr adroddiad hwn er mwyn i'r Aelodau graffu ar yr adroddiad drafft, wedi ei atodi yn Atodiad 1, cyn caiff y drafft terfynol ei gyflwyno i'r Cyngor ar 7 Hydref 2014.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Gofynnir i'r Pwyllgor roi sylwadau ar yr adroddiad drafft ac, yn amodol ar unrhyw newid y cytunwyd arno, bod Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2013/14 yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir er cymeradwyaeth.

## 4. Manylion am yr adroddiad

4.1 Mae Cynllun Corfforaethol 2012-17 y Cyngor yn nodi cyfeiriad strategol a blaenoriaethau'r Cyngor am gyfnod o bum mlynedd. Mae manylion yr hyn mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud pob blwyddyn i gynorthwyo gyda chyflawni'r blaenoriaethau wedi eu nodi yn y cynlluniau gwasanaethau blynyddol ac yn Nogfen Gyflawni Blynyddol y Cynllun Corfforaethol. Mae gan y Cyngor hefyd set o Gytundebau Canlyniad gyda Llywodraeth Cymru.

4.2 Mae'r Adolygiad Perfformiad Blynyddol hwn yn darparu gwerthusiad ôl-weithredol o lwyddiant y Cyngor o ran cyflawni ei ymrwymiadau yn ystod 2013/14, a p'un ai yw'r Cyngor wedi llwyddo i wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus.

4.3 Mae amseru'r adroddiad hwn yn aml iawn yn anodd oherwydd nid yw'r rhan fwyaf o wybodaeth sydd ei hangen i ddeall ein perfformiad (e.e. data cymharol ar gyfer holl gynghorau Cymru) ar gael nes bron i ddiwedd terfyn amser yr adroddiad. Mae hyn yn fwy o broblem rŵan bod gennym ni system rheoli perfformiad mwy soffistigedig yn seiliedig ar drothwyon rhagoriaeth yn hytrach na thargedau wedi eu pennu'n lleol. Cyhoeddwyd data cenedlaethol ar 3 Medi,

a oedd yn rhoi ychydig iawn o amser i ni werthuso ein sefyllfa gymharol a chwblhau’r adroddiad drafft erbyn 16 Medi.

**5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae’r Adolygiad Perfformiad Blynyddol yn cynnwys gwerthusiad o lwyddiant y Cyngor o ran y blaenoriaethau corfforaethol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Yr unig gostau ynghlwm wrth yr adroddiad hwn yw costau argraffu copïau ar gyfer derbynfeydd, llyfrgelloedd a siopau un stop ac ati. Bydd hyn yn cael ei wneud yn fewnol, gyda'r costau'n cael eu cwrdd gan Wella Busnes a Pherfformiad.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad?Dylid atodi Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau fel atodiad i’r adroddiad hwn.**

7.1 Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer yr adroddiad hwn. Mae’r adroddiad hwn yn darparu gwerthusiad ôl-weithredol o berfformiad y Cyngor, ac nid yw’r penderfyniad i gymeradwyo’r adroddiad yn effeithio ar nodweddion a ddiogelir. Cynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar y Cynllun Corfforaethol, a chafodd ei gyflwyno i’r Cyngor Sir pan gymeradwywyd y cynllun ym mis Hydref 2012.

**8. Pa ymgynghori a wnaed gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

8.1 Datblygwyd yr adroddiad hwn gan y Tîm Gwella Corfforaethol, drwy ymgynghori â gwasanaethau eraill y Cyngor. Mae’r wybodaeth ynglŷn â'r perfformiad wedi ei ddarparu gan y gwasanaethau yn defnyddio system rheoli perfformiad Verto. Mae’r adroddiad wedi ei gyflwyno er dibenion ymgynghori gyda’r Pwyllgor Archwilio Perfformiad cyn y cafodd ei gyflwyno i’r Cyngor er cymeradwyaeth. Ymgynghorwyd hefyd â’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Bydd unrhyw newid yn sgil yr ymgynghoriad â’r Cabinet, y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn cael ei wneud cyn cyflwyno’r adroddiad i’r Cyngor.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Nid oes goblygiadau ariannol arwyddocaol o ganlyniad i’r adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sy’n bodoli, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 “Mae’r risg o adroddiadau negyddol gan reolyddion allanol” yn risg sydd wedi ei nodi ar y Cofrestr Risg Corfforaethol. Byddai methu cyhoeddi’r Adolygiad Blynyddol erbyn y dyddiad terfyn o 31 Hydref yn debygol o arwain at argymhellion statudol gan Swyddfa Archwilio Cymru, gyda goblygiadau sylweddol ar gyfer enw da’r Cyngor.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Mae'r Cynllun Corfforaethol a'r Adolygiad Perfformiad Blynyddol yn elfennau allweddol o Raglen Cymru ar gyfer Gwella (2010), sy'n cael ei gefnogi gan ofynion statudol Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

11.2 Mae erthyglau 6.1 a 6.3.4(b) yn nodi swyddogaeth a phŵer y Pwyllgor a chraffu o ran rheoli perfformiad a monitro.

**Swyddog Cyswllt:** Rheolwr y Rhaglen Gorfforaethol Ffôn: 07827 311097